


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))



Ffocws ar: Staff â sawl rôl

Os oes gennych staff sy'n gweithio mewn gwahanol rolau yn eich practis, gwnewch yn siŵr bod hyn yn cael ei adlewyrchu'n gywir ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru.

Y Camau sydd eu Hangen: Dylai pob Rheolwr Practis wirio bod gan staff sydd â mwy nag un rôl yn ei bractis Gofnodion Staff ar wahân ar gyfer pob rôl, a bod cyfanswm yr oriau ar gyfer pob rôl yn gyfanswm yr oriau a weithir yn y practis. Gweler yr enghraifft isod: Mae Megan Jones yn nyrs llawn yn ei phractis ond mae hefyd yn gweithio un sesiwn yr wythnos mewn rôl cymorth gweinyddol. Yn yr achos hwn, byddai'r Rheolwr Practis yn creu 2 gofnod staff ac yn adlewyrchu'r gwahanol rolau yn y grŵp staff/rôl. Yr oriau dan contract/oriau gwaith ar gyfer y rôl nyrs fyddai 33.33 ac, ar gyfer y rôl weinyddol, byddai'n 4.167 (1 sesiwn = 4.167 awr).

I gael cyngor ar sut i fewnbynnu unrhyw senario gweithio cymhleth, anfonwch e-bost at nwssp.primarycarewnwrs@wales.nhs.uk



Er mwyn symleiddio rheoli anghenion eich gweithlu, mae Locum Hub Wales (LHW) a GP Wales wedi uno eu gwefannau. Bellach, gallwch reoli a chael mynediad at eich gweithlu locwm a hysbysebu swyddi gwag parhaol yn yr un man, sef trwy www.GPWales.co.uk. Os oes gennych wybodaeth fewngofnodi ar gyfer LHW, bydd yr wybodaeth hon yn gweithio ar y wefan newydd hefyd. Os ydych chi ddim ond wedi defnyddio GP Wales o'r blaen, crëwch gyfrif newydd a byddwch yn gweld sut y gall y ddau faes helpu i gefnogi eich practis.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ymarferoldeb GP Wales, cyfeiriwch at eu tudalennau cymorth cynhwysfawr, dyma'r [ddolen](#), neu anfonwch e-bost at support@gpwales.co.uk

Data sydd wedi'u Dilysu 100%

Diolch i waith caled ac ymrwymiad yr holl Reolwyr Practisiau, llwyddodd **100% o Bractisiau yng Nghymru** i wirio a dilysu eu data ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru cyn y broses o lawrlwytho data ym mis Mehefin 2021. Mae hwn yn ganlyniad gwych a hoffem ddiolch i bob Rheolwr Practis. Mae mor galonogol gweld y canlyniad hwn ac mae'n adlewyrchu'ch gweithlu presennol. Mae cynllunwyr y gweithlu yn defnyddio System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ac mae'n galluogi adnabod aelodau staff yn gyflym pan fydd pryder ynghylch Indemnïad Ymarfer Meddygol Cyffredinol yn codi. Parhewch i wirio bod y data ar gyfer eich practis ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru yn gywir. Mae gan rai practisiau rybuddion sydd heb eu datrys o hyd, sy'n dynodi gwybodaeth sydd ar goll yn eu Cofnodion Staff. Dylai'r holl staff sy'n gweithio yn eich practis gael eu cynrychioli ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru, ac eithrio Meddygon Teulu dan Hyfforddiant a Meddygon

Syniadau ac Awgrymiadau

Dechreuwyr Newydd



Yn aml, gall yr adeg hon o'r flwyddyn fod yn brysur wrth i ddechreuwyr newydd ymuno â phractisiau meddygon teulu. Mae'n bwysig nodi dechreuwyr newydd yn eich practis yn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu, gan gynnwys meddygon teulu sydd newydd gymhwyso.

Gallwch nodi cofnod staff ar gyfer unrhyw ddechreuwyr newydd gyda dyddiad cychwyn yn y dyfodol os yw hyn yn haws i chi. Dewiswch y dyddiad yn y dyfodol o'r gwymplen yn y calendr. Peidiwch ag anghofio mewnbennu data ym mhob maes gorfodol, er mwyn osgoi unrhyw rybuddion

